Urdd

# Cip

## RHIFYN MAWR YR HAF!

Mai - Mehefin 2020 - £2

ISSN 1350-8547

9 771350 854001 >

CYMRAEG Siarter Iaith

urdd.cymru/cip cip@urdd.org

Cylchgronau yr Urdd @cylchgrawncip @cylchgronau_urdd

Cip 2

# Croeso



Helô ffrindiau,

Dyma rifyn olaf Cip tan fis Medi!

Mae'n llawn crefftau, jôcs, straeon gan ffrindiau o dramor a rysait Masnach Deg!

Gyda'n gilydd gallwn chwerthin.

Gyda'n gilydd gallwn hel straeon.

Gyda'n gilydd gallwn ddawnsio.

Gyda'n gilydd gallwn goginio a chreu pethau hyfryd.

Cofiwch gadw mewn cysylltiad! Anfonwch luniau, straeon a jôcs ata i at cip@urdd.org

Hwyl am y tro!

*Mistar Urdd*

**SGANIA FI!**

Sgania neu clicia ar y côd i gyrraedd at dudalen wê cudd i danysgrifwyr! "Ffrindiau Cip"

# HEI! MISTAR URDD!



## Lili
Caerfyrddin
7 oed

- Hoff fwyd? Sbageti a chig
- Hoff air Cymraeg? Enfys
- Hoff le yn y byd? Legoland
- Hoff bwnc yn yr ysgol? Celf a chrefft
- Hoff lyfr? Bywyd Gwyllt Mewn Perygl
- Hoff liw? Aur
- Pwy yw dy arwr neu arwres a pham? Mami. Mae hi yn helpu fi.
- Hoff raglen deledu neu gêm gyfrifiadurol? Pete the Cat
- Pwy hoffet ti fod am y diwrnod a pham? Athrawes i helpu Miss.



## Ciara
Cymru
10 oed

- Hoff fwyd? Macaroni a chaws
- Hoff air Cymraeg? Wnco Mwnco
- Hoff le yn y byd? Lerpwl
- Hoff bwnc yn yr ysgol? Celf
- Hoff lyfr? Warrior Cats
- Hoff liw? Gwyrdd mintys
- Pwy yw dy arwr neu arwres a pham? Matt Murdock
- Hoff raglen deledu neu gêm gyfrifiadurol? Twilight Wings
- Pwy hoffet ti fod am y diwrnod a pham? Cath oherwydd dydw i ddim yn gorfod gwneud dim byd.



## Nieve
Bangor
8 oed

- Hoff fwyd? Swshi
- Hoff air Cymraeg? Sboncen neu popty ping.
- Hoff le yn y byd? Sydney yn Awstralia lle cefais fy ngeni.
- Hoff bwnc yn yr ysgol? Gwyddoniaeth
- Hoff lyfr? The Boy At The Back Of The Class
- Hoff liw? Piws
- Pwy yw dy arwr neu arwres a pham? Amilie Morgan oherwydd mae hi'n gymnastiwr anhygoel.
- Hoff raglen deledu neu gêm gyfrifiadurol? Fy hoff rhaglen yw Blue Peter.
- Pwy hoffet ti fod am y diwrnod a pham? Gymnastiwr enwog yn ennill medal aur yn y Gemau Olympaidd



## Moi
Llanaber
7 oed

- Hoff fwyd? Cig moch ac wy
- Hoff air Cymraeg? Mwlsyn
- Hoff le yn y byd? Ffrainc
- Hoff bwnc yn yr ysgol? Hanes
- Hoff lyfr? Llyfrau Roald Dahl a Dog Man
- Hoff liw? Coch
- Pwy yw dy arwr neu arwres a pham? Gareth Bale oherwydd mae'n chwarae i Gymru.
- Hoff raglen deledu neu gêm gyfrifiadurol? Roblox
- Pwy hoffet ti fod am y diwrnod a pham? Firmino er mwyn cael chwarae i Lerpwl.

Hawlfraint Urdd Gobaith Cymru yw'r holl gylchgrawn oni nodir yn wahanol. Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu gan Y Lolfa, Tal-y-bont ar ran Cwmni Urdd Gobaith Cymru.
ISSN 1350-8547
Paratowyd gyda chymorth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru. Golygydd: Sioned Eleri Roberts Dylunydd: Meilyr Gwynn.
Cysyllta â ni: Cip, Cefn Gwyn, Gwersyll yr Urdd Caerdydd, Plas Bute, Caerdydd. CF10 5AL e-bost: cip@urdd.org neu beth am ymweld â gwefan urdd.cymru/cip

# Jôcs Tŷ Bach Mistar Urdd

Cnoc cnoc.
Pwy sydd yna?
Cai.
Cai Pwy?
Cai y drws mae'n oer!
Rhys Mason, Ysgol Y Ferch o'r Sger.

Ble mae defaid yn hoffi mynd ar eu gwyliau?
Meeecsico
Harri Davies, Ysgol Pen y Bryn, Tywyn

Roedd gen i ddau bysgodyn aur, o'r enw 'Un a Dai'. Os oedd un yn marw roedd dal Dai gen i ar ôl.
Gethin John, Ysgol Gynradd Bro Allta

Beth mae adeiladwr yn ei fwyta i frecwast?
Weeta-bricks!
Loti Rhys, Ysgol Hamadryad

Beth wyt ti'n ei gael os wyt ti'n cael dy ben yn y tostiwr?
Pen-tost
Medi o Ysgol Pen y Garth

Beth ddywedodd y tŷ bach wrth y tŷ bach arall?
Ti'n edrych damed bach yn fflyshd.
Becca Richardson, Ysgol Bryn y Mor

Beth yw'r ffordd mwyaf cŵl o deithio?
Trên du.
Tomos o Ysgol Iolo Morgannwg

Beth sydd yr un faint â buwch, ond sy'n pwyso dim byd?
Ei gysgod!
Owain Rhys Jones, 8 oed

Pam bod gwddf Joseff mor hir?
Oherwydd bod ei draed o'n drewi.
Gwern o Ysgol Gynradd Llandrwog

Os fysech chi gyda 5 afal a 10 oren yn un llaw, a 20 afal a 3 oren yn y llaw arall, be fysech chi efo?
Dwylo mawr!
Gwen, 9 oed

Oes gen ti jôc sy'n haeddu bod ar dudalen Jôcs Tŷ Bach Mistar Urdd? Beth am ei danfon at

**cip@urdd.org**

Bydd y goreuon yn cael eu rhannu yma!



Dwi'n gweld gyda fy llygad ddrygionus i...

# Hwyl a direidi Na, Nel!




Cyfrwch y nifer o bethau yn ymwneud â byd Na, Nel!. Ysgrifennwch y rhif cywir yn y blwch.

 ☐ Nel

 ☐ Pensel


 ☐ Enfys

 ☐ Llyfr

 ☐ Seren

 ☐ Mister Fflwff

 ☐ Wy Pasg




Mae llyfrau Na, Nel! ar werth mewn siopau llyfrau ac arlein: www.ylolfa.com

Beth am roi cynnig ar wneud eich pos eich hun? Fe allwch chi ddefnyddio lluniau a chymeriadau o lyfrau Na, Nel!, neu ddefnyddio pethau yn ymwneud â'r gwanwyn.

# ANTUR FACH ADRE

# ADEILADU LLOCHES!

Gallwch wneud yn eich ardd gefn
neu hyd yn oed mewn stafell tu fewn!

Dyma Ysgol Treganna yn cael tro arni!





1. Mae angen cysgod rhag y gwynt a'r glaw a'r haul.
2. O ba gyfeiriad mae'r gwynt yn chwythu? Mae angen iddo fod yn ddigon cryf.
3. Mae angen defnyddio rhywbeth sydd yna'n barod e.e. coeden, ffens, brigau cryf ayyb.
4. Wyt ti'n gallu ffitio yn y lloches? Yw'n ddigon mawr?
5. Mae angen tynnu'r defnydd yn dynn. Dydyn ni ddim eisiau ei fod yn fflapio!







## DILYNWCH Y 3 C!

**Cysgod** - o'r tywydd

**Cryf** - Gallu sefyll ar ben ei hun (heb eich bod chi'n dal unrhyw beth)

**Cadarn** - Gallu gwrthsefyll y gwynt (ddim yn fflapio o gwmpas!)





Os ydych yn y tŷ – beth am wneud gyda chadeiriau neu flancedi? Bydd dim angen poeni am y gwynt, y glaw na'r haul!

**MWYNHEWCH!**

# Newyddion Da o gwmpas y byd!

1. Cafodd grŵp 'Côr-ONA' ei ffurfio ar Facebook ar y 17/03/20 i gysylltu cantorion a chorau sydd ar stop yn ystod y cyfnod yma. Mae pobl yn canu rhannau gwahanol ac yn postio eu hoff ganeuon.

2. Mae sawl person wedi creu rhestrau chwarae da. Beth am wrando ar restr chwarae 'Tiwns Codi Calon Mistar Urdd' ar Spotify?

3. Mae acwariwm Chicago wedi cau, ond maen nhw wedi gadael i'r pengwiniaid yn rhydd i weld yr arddangosfeydd i gyd.

4. Mae Eidalwyr wedi bod yn canu caneuon i godi calon o'u balcawdau (balconies).

5. Mae llygredd aer Tseina wedi lleihau ac wedi achub bywyd dros 4,000 o blant dan 5 oed a 73,000 o oedolion dros 70 oed.

6. Mae pobl o amgylch y byd ac yn yr UDA (USA) yn cefnogi busnesau bach yn rhannau Tseiniaidd (Chinatown) dinasoedd er mwyn gwrthwynebu hiliaeth a rhagfarn.

7. Mae hyfforddwr ffitrwydd yn Seville, Sbaen yn gwneud gwersi ymarfer corff ar y to i bobl sydd ddim yn cael mynd allan o'r tŷ.


8. Mae siop 'Iceland' wedi agor eu siopau rhwng 8 a 9 y bore ar gyfer yr henoed yn unig er mwyn iddynt gael amser i siopa heb lawer o bobl.

9. Mae doctoriaid, nyrsys, gweithwyr ysbytai, gweithwyr siopau bwyd, athrawon a holl staff gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio mor galed. Diolch o galon iddyn nhw!

**10. Mae pobl yn cadw'n bositif!**
Oes oes gennych chi straeon bositif anfonwch at
**cip@urdd.org**




**1.** Dyma 10 siâp.
Sylla arnyn nhw am **2 funud**, yna tro i waelod tudalen 20





**2.** Yn y rhesi hyn chwilia am barau o rifau sy'n gwneud cyfanswm o 10. Rhaid i'r rhifau fod yn ymyl ei gilydd.


Sawl pâr alli di ddarganfod mewn **3 munud**?


**ENGHRAIFFT:**
4 1 (8 2) 6 3 1 (5 5) 9 (7 3) 4 8 7 6 2 (1 9) 5

| | | ATEB |
|---|---|---|
| a. | 6 4 7 5 8 3 5 5 4 2 0 9 3 7 6 5 0 1 8 3 | |
| b. | 1 3 4 6 1 3 7 4 5 1 9 0 2 8 3 6 2 9 6 4 | |
| c. | 9 0 1 8 2 6 4 5 8 9 1 2 6 5 1 8 7 4 3 9 | |
| ch. | 1 8 5 5 6 1 9 4 7 6 5 0 9 1 7 3 4 4 6 8 | |
| d. | 5 4 0 8 1 2 9 3 7 8 5 2 9 3 5 4 6 8 2 9 | |
| dd. | 2 7 3 1 9 0 6 5 4 2 8 6 4 5 0 3 7 5 1 6 | |

**3.** Mae'r siapiau hyn yn gallu ffitio at ei gilydd i wneud sgwâr.
Ar ddarn o bapur tynna luniau'r sgwariau.
Alli di orffen y 3 sgwâr mewn **2 funud**?








**4.** Dwi wedi copïo enwau 10 grŵp pop.
Ydw i wedi eu copïo'n gywir?
Sawl camgymeriad alli di ddarganfod mewn **2 funud**?

| | Yr enwau go iawn | Copi Syr Cip |
|---|---|---|
| 1. | Y Trwynau Smwt | Y Trwynau Smot |
| 2. | Cen a'r Cangarŵod Coch | Cen ac Cangarŵod Coch |
| 3. | Huw Herc a Heini | Huw Herc a Heini |
| 4. | Barf Ysbaddaden | Barf Ysbadaden |
| 5. | Nel a'r Llygoden Lwyd | Nel a'r Llygoden Llwyd |
| 6. | Bwci-bo a Bwgan Brain | Bwci-do a Bwgan y Brain |
| 7. | Dai Sosej a Gwen Grefi | Dau Soser a Gwen Grefi |
| 8. | Gwenhwyfar a'r Chwilod | Gwenhwyfar a'r Chwilod |
| 9. | Dros Ben Llestri | Dros Ben Llesteri |
| 10. | Cawl Cennin a'r Gweilch | Cawl Cennin a'i Gwelch |


CYFANSWM CAMGYMERIADAU

**5.** Dyma focs wedi ei wasgu'n fflat.
P'un o'r bocsys hyn yw e – a, b neu c?
Penderfyna mewn **30 eiliad**






**6.** Edrych ar y siâp hwn am **20 eiliad**,
yna tynna ei lun ar ddarn o bapur?
Oeddet ti'n gywir?



# Trystan yn Teithio

## – Gwisgoedd ar draws y byd –




Annwyl ddilynwyr,

Sut ydych chi? Yn anffodus fydda i ddim yn teithio am ychydig, felly dw i'n mwynhau bod adref gyda fy nheulu, chwarae gemau yn yr ardd a choginio llawer. Dw i'n ceisio cadw mewn cysylltiad gyda fy ffrindiau o dramor ar y we.

Beth ydych chi wedi bod yn gwneud yn ystod yr hunan ynysu?

Mae Mam, Dad, Tara (fy chwaer fach) a fi wedi bod yn clirio'r cwpwrdd dillad ac wedi ffeindio ein gwisgoedd Dydd Gŵyl Dewi. Meddyliais i – beth mae plant o gwmpas y byd yn gwisgo fel traddodiad?

Hwyl,
Trystan

**Matsiwch y wlad gyda'r wisg!**






**1**

**Sari**

Mae merched yn gwisgo un darn o ddefnydd – hyd at 9m o hyd wedi ei glymu mewn sawl ffordd.

**2**

**Kilt**

Mae'r dynion yn y wlad yma yn gwisgo sgertiau mewn patrymau gwahanol i briodasau a digwyddiadau pwysig.

**3**

**Lederhosen.**

Maen nhw fel 'dungarees' â siorts.

**4**

Mae treib y Maasai yn y wlad yma yn gwisgo gemwaith llachar fel mwclis ac ar eu pen.

**5**

**Het Stenson**

Mae cowbois wedi bod yn gwisgo'r Stetson ers 1865 yma.

**6**

**Hetiau Bowler**

Mae menywod 'Chola' neu Aymara yma yn gwisgo hetiau fel Mr Banks yn Mary Poppins ers yr 1920'au.

**7**

**Ffrogiau Fflamenco**

Mae merched sy'n dawnsio'r Fflamenco yn gwisgo'r ffrogiau yma.

**8**

**Hetiau côn - Non la**

Mae ffermwyr yn gwisgo'r het i warchod rhag yr haul a'r glaw. Mae pobl yn ysgrifennu cerddi ar ymyl yr het.

**9**

**Kimono**

Mae'n cael ei wisgo ar gyfer achlysuron arbennig e.e. priodasau gan ddynion a menywod.

**Atebion:**
1 - India 2 - Yr Alban 3 - De'r Almaen ac Awstria
4 - Kenya 5 - Tecsas, UDA 6 - La Paz, Bolifia
7 - Andalucia, Sbaen 8 - Fietnam 9 - Siapan

# Ffrindiau Rhyngwladol Mistar Urdd

# AWSTRALIA

Hei ffrindiau!

Mae plant Ysgol Haf Sydney wedi ysgrifennu llythyrau am eu bywydau nhw yn siarad a dysgu Cymraeg yn Awstralia.

Beth am ysgrifennu llythyr atyn nhw at **cip@urdd.org**

Fy enw i yw Elin. Dw i'n chwech mlwydd oed. Dw i'n byw yn Sydney, De Cymru Newydd, Awstralia. Fy hoff beth am Awstralia yw y crwbanod. Haf yma, es i i Ysgol Haf Gymraeg Sydney. Dysgais lawer am gelf a chrefft. Fy hoff liw yw melyn.


Siarad cyn bo' hir,
Elin




Fy enw i yw Owen. Dw i'n 8 mlwydd oed. Dw i'n byw yn Sydney, De Cymru Newydd, Awstralia. Mae hi'n boeth iawn yma. Fy hoff beth am Awstralia yw'r traeth. Haf yma (sef mis Ionawr), es i i Ysgol Haf Gymraeg Sydney. Dysgais i sut i chwarae gemau yn y Gymraeg. Dw i'n mwynhau chwarae rygbi. Dw i'n chwarae i Warhurst.


Cofion,

Owen




Fy enw i yw Seren. Rwy'n bump oed. Rwy'n hoffi rhedeg. Rwy'n byw yn Awstralia.

Sws sws,
wrth,
Seren





Helo!
Fy enw i yw Branwen. Rwy'n 12 oed. Dw i'n byw yn Sydney, De Cymru Newydd, Awstralia. Mae'r tywydd yn boeth iawn ac yn sych yma. Mae'r traethau a'r anifeiliaid yn anhygoel. Fy hoff anifail yw ceffylau. Haf yma, es i i Ysgol Haf Sydney. Dysgais sut i ysgrifennu yn y Gymraeg a sut i chwarae gemau yn y Gymraeg. Yn fy amser sbâr rwy'n caru marchogaeth ceffylau. Enw fy ngheffyl yw Joey. Mae e'n lliw orenaidd a brown fel cneuen. Dw i wedi ymweld â Chymru deg gwaith. Blwyddyn diwethaf es i i Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst.

Sws sws,
Branwen

Fy enw i yw Cai ac rwyf yn 7 mlwydd oed. Dw i'n byw yn Sydney, De Cymru Newydd, Awstralia. Mae'r tywydd yn boeth iawn ac yn sych yma. Fy hoff beth am Awstralia yw'r traethau. Haf yma es i i Ysgol Haf Gymraeg Sydney. Dysgais i sut i chwarae gemau yn y Gymraeg. Dwi'n mwynhau chwarae criced a reidio fy meic.

Cofion,
Cai.



Fy enw i yw Macsen. Rwy'n 9 oed. Rwy'n hoffi reidio beic. Rwy'n byw yn Sydney, Awstralia. Yn Ionawr es i i Ysgol Haf Sydney. Rwy'n siarad Cymraeg yn yr Ysgol Haf. Fy hoff anifail yw'r eryr. Mae llawer o anifeiliaid unigryw yn Awstralia fel emiw ac echidna a platapws. Oes anifeiliaid diddorol yng Nghymru?

Cofion,
Macsen.







Fy enw i yw Betsan. Rwy'n 7 oed. Rwy'n hoffi chwarae yn y parc. Rwy'n byw yn Sydney, Awstralia. Yn Ionawr rwy'n mynd i Ysgol Haf Gymraeg Sydney. Rwy'n siarad Cymraeg yn yr ysgol. Rwy'n hoffi hedfan i Gymru i weld Nain a Taid. Rwy'n mwynhau mynd ar fy ngwyliau i weld fy nheulu yng Nghymru. Rwy'n caru byw yn Sydney. Mae'n dwym ac yn bert.

Llawer o gariad,
Betsan

Fy enw i yw Gwilym. Rwy'n 5 oed. Rwy'n hoffi chwarae ar yr ipad. Rwy'n byw yn agos i'r traeth. Rwy'n hoffi nofio yn y môr.

Sws sws,
Gwilym




**Oes gen ti ffrindiau sy'n siarad Cymraeg tu allan i Gymru neu rwyt ti'n byw tu allan i Gymru?**

Bydd Mistar Urdd wrth ei fodd yn clywed straeon o'i ffrindiau o gwmpas y byd!

Anfona lythyr at **cip@urdd.org**




Ym mis Ionawr 2020, aeth un o brentisiaid yr Urdd, Jack Perkins a Swyddog Ieuenctid yr Urdd, Lewys Wyn Jones i Awstralia i gynnal gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Haf Gymraeg Sydney. Dyma'r tro cyntaf i'r Urdd wneud rhywbeth fel hyn. Dyma'u hargraffiadau.

## 1/ BETH OEDDECH CHI YN EI DDISGWYL?

**Jack:** Dim syniad! Gan ei fod e y tro cyntaf i staff Urdd deithio i Awstralia, doedd neb yn gallu dweud wrthon ni beth fyddai fe fel! Ond ar ôl bod mas yna am gwpwl o ddyddiau, roedd yn wych i ddechrau gweld Cymraeg y plant yn gwella'n gyflym a gweld hyder y plant yn tyfu hefyd!

**Lewys:** I fod yn onest, doeddwn i'm yn gwybod be' i ddisgwyl. Dyna'i gyd oedden ni'n gwybod oedd byddai tua 10-15 o blant yn rhan o'r cynllun a bod eu Cymraeg nhw yn sylfaenol iawn. Roeddwn i a Jack wedi gwneud gwaith paratoi, ond i fod yn onest, fe wnaeth y rhan fwyaf o hynny newid ar ôl cyrraedd. Roedd hi'n bwysig ein bod yn addasu yn ôl galw'r plant ac yn meddwl ar ein traed er mwyn gwneud y sesiynau mor berthnasol â phosibl.

## 2/ SUT OEDD Y PROFIAD GO IAWN?

**Lewys:** Roedd o wir yn brofiad bythgofiadwy. Roedd y caban yn edrych dros Bont Harbwr Sydney ac roedd y plant yn arbennig o dda. Dw i'n sicr bydd y plant a ni yn cofio'r profiad am byth. Yn sicr credaf fod eu hymdeimlad o fod yn siaradwyr Cymraeg a'u balchder yn yr iaith wedi ffynnu. Mae hi'n bwysig fod y plant yn dysgu am eu diwylliant a'u treftadaeth er mwyn agor eu llygaid i weddill y byd.

**Jack:** Roedd y profiad yn wych. Profiad unwaith mewn bywyd! Rydym fel arfer yn gwneud gwersylloedd gwyliau yng Nghymru, ond dw i byth wedi gweld Pont Harbwr Sydney o'r blaen! Roedd y profiad o allu siarad Cymraeg dros 10 mil o filltiroedd i ffwrdd yn wych a diolch yn fawr i Gymru a'r Byd a rhieni Ysgol Haf Sydney am y profiad.

## 3/ BETH WNAETHOCH CHI EI FWYNHAU FWYAF?

**Jack:** Roedd dysgu am ddiwylliant gwahanol a chadw fy niwylliant fy hun yn fyw mewn gwlad dramor yn brofiad bendigedig. Roedd yr Ysgol Haf yn gymdeithas agos iawn. Roedd bod yn rhan o hyn am bythefnos yn dangos sut mae'r iaith Gymraeg yn gallu creu perthnasau agos iawn gyda'r plant a'r rhieni.

**Lewys:** Gan fod yr Ysgol yn para pythefnos, nes i wir fwynhau dod i adnabod y plant yn iawn, dod i adnabod eu ffordd nhw o fyw a pha mor wahanol oedd eu byd nhw i'n byd ni. Ond roedd un peth yn gyffredin rhwng pawb, sef eu Cymreictod. Nes i hefyd fwynhau dod i adnabod y rhieni a'r teuluoedd a dysgu mwy am eu hanes nhw.

### 4 / SUT YMATEB GAFOCH CHI GAN Y PLANT?

**Jack:** Dwi ddim yn gwybod os oedd y plant ychydig bach yn ifanc i ddeall pam roedd dau ddieithryn o Gymru yna! Wedi i ni gymdeithasu a dysgu gyda'r plant roedd pob un ohonynt yn gwerthfawrogi'r ffaith ein fod yn le hollol wahanol iddyn nhw. Dw i'n siŵr roedd rhai o'r plant yn synnu pan ddechreuon ni siarad yn rhugl yn y Gymraeg hefyd!

**Lewys:** Roedd yr ymateb yn anhygoel. Roedd ambell un yn weddol dryslyd i'r ffaith fod dau berson o Gymru fach wedi dod yno i siarad iaith anghyfarwydd hefo nhw. Ond ar ôl ambell ddiwrnod, roedd pawb yn cymryd rhan yn grêt ac yn gwneud eu gorau hefo'u Cymraeg.

### 5 / WNAETH EICH YMWELIAD WAHANIAETH YN EICH BARN CHI?

**Jack:** Byddwn i'n dweud rydyn ni wedi gwella safon iaith y rhan fwyaf o'r plant. Wel, ar ôl sylweddoli bod Lewys a finnau yn defnyddio geiriau gwahanol am yr un peth! Gobeithio bydd y plant yn gallu cofio beth maen nhw wedi dysgu a dal ati i ddysgu mwy o'r iaith.

**Lewys:** Mae hi'n anodd iawn gwybod yn union faint o wahaniaeth rydyn ni wedi cael ar y plant, ond roedd eu hymateb yn anhygoel. Roedd pawb mor awyddus ac yn hapus i ddod i'r ysgol pob diwrnod. Yn sicr, cafodd ambell un hŷn yn y grŵp gyfle anhygoel i wella eu hysgrifennu ac i siarad ac ymarfer eu Cymraeg pob dydd. Byswn i'n dweud fod safon Cymraeg pob un wedi gwella ar ôl y pythefnos.

### 6 / PA MOR BWYSIG YDI HI FOD YR URDD YN LLEDAENU'R NEGES AC YN MYND AR DEITHIAU TU HWNT I GYMRU?

**Lewys:** Yn sicr mae hi'n bwysig fod yr Urdd yn cael lledaenu ei neges tu hwnt i Gymru.

Mae tegwch, dwyieithrwydd a chyfleoedd i bobl ifanc yn rhywbeth pwysig dylai fod ym mhob gwlad. Mae'r Urdd yn rhoi cyfle i bobl ifanc Cymru weld y byd, ac o ganlyniad yn agor eu llygaid i bethau tu hwnt i Gymru.

**Jack:** Mae'n bwysig iawn i'r Urdd ledaenu'r neges a mynd tu hwnt i Gymru! Mae Urdd yn rhoi'r cyfle i'r genhedlaeth nesaf sy'n wych!









# CogUrdd

gyda Zoe Thomas

Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

# Myffins Siocled Masnach Deg!



## Cynhwysion

- 250g blawd hunan godi (self raising)
- 25g o bowdwr coco Masnach Deg
- 2 llwy de o bowdwr pobi
- 175g o siwgr caster masnach deg
- 175ml o laeth
- 2 wy
- 100ml o olew blodyn yr haul
- 75g o siocled Masnach Deg - wedi torri'n dalpiau
- 2 llwy de o fanila



Ewch i '[Ffrindiau Cip](quizlet.com/_89eli2?x=1jqt&i=k7rq1)' i wneud y cwis cynhwysion. quizlet.com/_89eli2?x=1jqt&i=k7rq1

## Dull

1. Cynheswch y ffwrn i 170°c/ nwy 5 a leiniwch dun myffins 12 twll gyda chasys.
2. Hidlwch y blawd, coco a'r powdwr pobi i'r fowlen. Nesaf, rhowch y siwgr i mewn a throi'r gymysgedd.
3. Ychwanegwch weddill y cynhwysion a'u cymysgu'n ysgafn gyda'i gilydd.
4. Rhannwch y gymysgedd rhwng y 12 casys myffins a'u pobi am 20 munud nes iddynt godi.
5. Gadewch i'r myffins oeri am 10 munud cyn eu trosglwyddo i rac weiren i oeri yn llwyr.
6. Yna amser bwyta a mwynhau!













Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

Mae hi'n **Ddiwrnod Rhyngwladol Masnach Deg** *(World Fairtrade Day)* ar Fai 9fed 2020. Beth am wneud rysáit eich hun sy'n defnyddio *(uses)* cynhwysion Masnach Deg?
Ewch i ddysgu mwy am waith Masnach Deg ar eu gwefan. Mae llawer o weithgareddau yn Gymraeg yma: Cliciwch Yma


Cip


SEREN A SBARC
gan Huw Aaron
HA! RWYF FI - Y LLUNGOPÏWR, WEDI CIPIO SEREN A'I CHOPÏO HI! YR UNIG FFORDD I TI GAEL HI 'NÔL YW I FFEINDIO'R COPI CYWIR! HA HA HA BÎP BÎP BÎP
Cip


# SEREN A SBARC

gan Huw Aaron




WEL, DYLWN NI FOD! NI WEDI GWISGO FEL ARWYR PWYSIG O HANES CYMRU!
ARWYR?! CI WYT TI... A MAE HI'N GADAIR.
HY! DYW PLANT CYMRU DDIM YN GWYBOD UNRHYWBETH AM HANES CYMRU!
BECA SMASH!
SMASH!
NI'N MYND I ATGOFFA PAWB O'U HANES TRWY YMOSOD AR YSGOLION A FEDRWCH CHI DDIM EIN STOPIO!
O... MEDRWN!
CRONC
PAFF
HYP!
CRONSH!
DWSH!
WAP
WFF!
SDLOTSH!
CRASH!
WAPPPRSH
EDRYCH, MAE'N RHAID BOD YNA FFORDD WELL O DDYSGU HANES NAC YMLADD PLANT.
IE-CHI'N METHU YMLADD.
OND BETH?
BETH AM YSGRIFENNU LLYFR AM HANES CYMRU SY'N CYNNWYS ARWYR MAE PLANT YN NABOD?
SYNIAD DA! PWY?
FALLE GALLWN NI HELPU...
FELLY...
TA-DAA! YR UNION PETH!
SEREN SBARC
A'R PEI (RIANT) AMSER
ALLAN YN FUAN!!

## TASG 1 - Syr Cip





## ATEBION SYR CIP

**Tudalen 8-9**


**1** Mae'r siapiau hyn yr un fath:
1, 2, 3, 5, 6, 7, 10.
Y siapiau gwahanol: 4, 8 ,9

**2** Mae 24 pâr

**Tudalen 22-23**

| | |
|---|---|
| **1** a - Yr Eidal | **2** a - Mecsico |
| b - Yr Almaen | b - Siapan |
| c - Ffrainc | c - Tseina |
| ch - Croatia | ch - Twrci |
| d - Sbaen | d - Yr Aifft |
| dd - Iseldiroedd | dd - Rwsia |
| e - Sweden | e - Yr Eidal |

**3** a b c



**4** Mae cyfanswm o **11** camgymeriad.
Dyma nhw:
1. Y Trwynau Sm**o**t
2. Cen **ac** Cangarŵod Coch
4. Barf Ysba**d**aden
5. Nel a'r Llygoden **Ll**wyd
6. Bwci-**do** a Bwgan **y** Brain
7. Da**u** Sose**r** a Gwen Grefi
9. Dros Ben Llest**e**ri
10. Cawl Cennin a'**i** Gw**el**ch

**5** c

Daw Eto Haul ar Fryn - Beth am liwio a rhoi yn eich ffenestr i ddangos ein bod ni i gyd gyda'n gilydd?



# HYSBYSFWRDD SYR CIP

Helô bawb!
Ym Mis Mai mae aelodau'r Urdd yn gyrru Neges Ewyllys Da i bobl y byd.

**1.** Mae 7 ffrind o wledydd Ewrop yn dweud 'Helô' wrthot ti.
Alli di ddyfalu o ba wlad mae pob un yn dod? Bydd y baneri yn dy helpu.
Tynna linell o bob gwlad at y iaith cywir.

a
Ciao
(Tsiaw)

b
Guten Tag
(Gwten tac)

c
Bonjour
(Bon-siwr)

ch
Zdravo
(Sdrafo)

d
Hola
(O-la)

dd
Goede dag
(Hw-dy dach)


e
Hej
(Hei)



Yr Almaen



Yr Eidal



Ffrainc



Croatia



Iseldiroedd



Sbaen



Sweden

Beth am ddweud 'Helô' wrth bob un yn ei iaith ei hun?
Mae'r geiriau rhwng y cromfachau yn dangos i ti sut mae dweud pob 'Helô.

**2.** Iym! Beth am gael pryd o fwyd gyda'n gilydd? Wyt ti am baratoi cawl?

Dyma 7 o fwydydd. O ba wledydd maen nhw'n dod? Tynna linell o bob gwlad at y bwyd cywir.


a) Taco


b) Sushi


c) Chow mein


ch) Kebab


d) Felafel


dd) Blini


e) Pasta



Mecsico



Twrci


Tseina


Yr Aifft



Yr Eidal


Siapan


Rwsia

**3.** Dyma symbol y Gêmau Olympaidd. Mae'r 5 cylch yn dynodi 5 cyfandir, ac mae'r lliwiau'n cynrychioli'r holl liwiau sy'n ymddangos ar faneri'r gwledydd.

Dyma enwau 15 gwlad, 3 o bob cyfandir. Chwilia am yr enwau ar y grid a'u croesi allan. Beth am ddefnyddio gwahanol liwiau – glas, melyn, du, gwyrdd, coch – sef y lliwiau ar y cylchoedd?



| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | L | Y | W | P | D | A | L | W | G | N |
| I | P | O | R | T | I | W | G | A | L | I |
| R | A | Y | G | E | M | O | A | N | A | G |
| E | E | U | Ch | F | C | O | I | O | Y | E |
| G | R | Y | M | I | A | P | D | Dd | N | R |
| L | O | I | S | J | N | Dd | N | R | E | I |
| A | K | C | N | I | A | A | I | E | K | A |
| S | E | L | A | N | D | N | E | W | Y | Dd |
| M | D | L | I | S | A | R | B | I | O | K |
| Y | A | I | L | A | R | T | S | W | A | O |


Ewrop: GWLAD PWYL / IWERDDON / PORTIWGAL

Asia: CHINA / DE KOREA / INDIA

Affrica: ALGERIA / KENYA / NIGERIA

Awstralia/Oceania: AWSTRALIA / FIJI / SELAND NEWYDD

De/Gogledd America: BRASIL / CANADA / MECSICO




**Cyflwyniad perffaith i rai o ferched blaenllaw Cymru a wnaeth anelu'n uchel a chyrraedd y brig!**

Beth am ymuno â Tori James a Betsi Cadwaladr am antur, dysgu am astroffiseg gyda Haley Gomez ac am y byd ffasiwn gyda Laura Ashley?

**Ar gael nawr | £5.99**

ylolfa.com

*Llyfrau dros Gymru*


# Cynnwys ar-lein am ddim!

Wyt ti'n chwilio am bethau i wneud yn y tŷ tra bod rhaid hunan-ynysu?

Wel, mae pentwr o bethau i wneud ar wefan yr Urdd - posau, straeon, lluniau lliwio, gwybodaeth ddefnyddiol a llawer mwy!
Mae'r holl gynnwys AM DDIM i ddarllen, lawrlwytho ac argraffu!

Cer i urdd.cymru/criw i weld beth elli di ffeindio.

Urdd



# Uwchgylchu cylchgronau

Oes gen ti hen gylchgronau o gwmpas y tŷ?
Dyma syniad ardderchog ar gyfer ei ail-ddefnyddio neu 'uwchgylchu'!
Celf cylchgronau!

## Mae angen:


Hen gylchgronau


Canfas / darn o bren neu gardfwrdd


Gwn glud poeth



Siswrn


Tâp


Patrwm
(Mae rhai ar gael ar dudalen we 'Ffrindiau Cip' neu gelli di feddwl am batrwm dy hun.)

## Dull:

1 Torrwch allan siâp silwét (templed ar gael ar lein).

2 Rhwygwch allan dudalen o'r cylchgronau. Plygwch y darnau yn eu hanner er mwyn cael 4 petryal bach.

3 Dechreuwch rholio! Ceisiwch rholio mor dynn ag sy'n bosibl! Tapiwch y diwedd er mwyn stopio'r rholyn ddod yn rhydd.

4 Gludwch y rholiau i'ch silwét mewn patrwm o'ch dewis. Unwaith mae'r silwét wedi ei orchuddio, torrwch yr ochrau ychwanegol i ffwrdd.

5 Gludwch y silwét i'r bwrdd pren/ canfas.